

Rhifyn yr Haf 2020

EDRYCH YMLAEN



Rhestr o gyfarwyddwyr Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen Cyf:-

Tom Cowcher-Cadeirydd / Chairman

Keith Evans-Is-gadeirydd / Vice-Chairman

Richard Davies-Trysorydd / Treasurer

Lesley Parker-Ysgrifennydd Y cwmni / Company Secretary

Marion Bryant

Richard Evans

Suzanna-Van-Eeghan

Mari Slaymaker

Gwefannau:

- Ar gyfer busnes, y sefydliad a gwybodaeth digwyddiadau yn Llandysul a Phont-Tyweli: www.llandysul-pontyweli.co.uk
- Ar gyfer trafnidiaeth gymunedol www.dolenteifi.org.uk
- Rhif ffôn: 01559 362 403
- Cyfeiriad e-bost: info@dolenteifi.org.uk

NEWYDDION

Gwasanaeth Clic a Chasglu Llyfrgell Llandysul

Gallwch archebu llyfrau, DVDs a CDs (am ddim) a byddwn yn cysylltu â chi pan fyddant yn barod i'w casglu o'r llyfrgell. Bydd hyn ar ddydd Mawrth a dydd lau rhwng 10yb – 1yp. I archebu defnyddiwch wefan y llyfrgell <https://libraries.ceredigion.gov.uk/>. Cysylltwch â ni os oes angen cyfrif PIN. Neu anfon e-bost is llyfrgell@llandysul.cymru gyda'ch archeb. Neu, ffonio ni ar 01545 574236 pan fyddwn ar agor ar ddydd Mawrth neu ddydd lau rhwng 10yb a 1yp. Neu gallwch bostio'r ffurflen archebu yn y blwch llythyron ar ochr chwith y drysau mawr.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni fyddwn yn codi ffioedd ond hoffwn weld ein llyfrau yn cael eu dychwelyd. Dyma felly amser ardderchog i dychwelyd unrhyw un o'r llyfrau sy'n hwy! Dychwelyd eitemau ar ddydd Mawrth a dydd lau, 10yb-1yp.

CROESO

Croeso i gylchlythyr Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen's (LPY) Edrych Ymlaen. Gobeithiwn y cewch y rhifyn hwn yn ddi-ddorol ac yn llawn gwybodaeth. Ers i'r cau lawr ddechrau ym mis Mawrth, mae staff LPY wedi bod yn gweithio o gartref. Rydym wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â'n gilydd a'r byd y tu allan drwy gyfarfodydd rhithrol zoom. Mae hyn wedi bod yn her, nid yn unig gyda'r materion yn ymwneud â tonfedd ar y rhyngwyd, ond nid yw llawer ohonom erioed wedi defnyddio zoom o'r blaen. Yr wyf yn siŵr y gall llawer ohonoch uniaethu â'r problemau hyn yn yr hinsawdd bresennol. Fodd bynnag, ar ôl ychydig o broblemau cychwynnol, ac wythnosau'n ddiweddarach, aeth pawb i'r afael â'r sialens a nawr rydym yn cael cyfarfodydd rhithrol rheolaidd.

Dros yr wythnosau diwethaf rydym hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â'n holl gleientiaid gan sicrhau eu bod yn cadw'n iach ac yn aros yn ddiogel, ond hefyd yn rhoi gwybod iddynt fod LPY/Dolen Teifi yno o hyd, ac rydym yn gobeithio aildddechrau ein gweithgareddau arferol cyn gynted ag y bo modd. Yn ystod y cau lawr rydym wedi manteisio ar y cyfnod llai gweithredol hwn ac wedi bod yn brysur yn ailaddurno'r Swyddfa yn Llandysul, elfen sydd wedi cael ei thrafod ac ar y cardiau am gyfnod ac sydd wedi'i chyflawni o'r diwedd.

Fodd bynnag, rydym nid yn unig wedi bod yn addurno, rydym wedi parhau i weithio ar ein cynllun busnes, prosesau rheoli trafndiaeth a diweddariadau o bolisiau eraill ac er nad yw ein bysiau yn cael eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd, mae rhai ohonynt allan yn ein cymunedau, yn cefnogi eu hanghenion ac yn ymateb i'r pandemig Covid-19.

Cynorthwyo Cymunedau

O'r cychwyn penderfynodd Cyfarwyddwyr LPY y byddent am gefnogi mudiadau oedd am estyn cymorth ymarferol i'w cymunedau mewn ymateb i heriau Covid -19. Gweler dwy enghraifft islaw.

Yr ydym wedi sicrhau bod un bws ar gael i "HELP Llandysul a'r ardal", grŵp a sefydlwyd mewn ymateb i heriau Covid-19 i gynorthwyo unigolion neu deuluoedd sy'n gorfod amddiffyn neu sydd angen cymorth i gael mynediad i siopa neu ymweld ar feddygfa neu ysbyty.

Ffurfiwyd **HELP! Llandysul a'r ardal** er mwyn cynorthwyo'r gymuned gan greu rhwydwaith o dros 30 o wirfoddolwyr yn yr wythnosau cyntaf. Dywedodd Matt fod y bws mini, "wedi bod yn ddefnyddiol iawn pan nad oedd yn bosib i bobl rhannu cerbyd gyda'i gilydd yn y ffordd arferol. Rydyn ni wedi bod yn casglu pobl sy'n byw tu fas Llandysul i fynd a nhw at y feddygfa. Ni wedi trefnu casglu pobl oedd ar angen mynd i'r ysbyty yng Nghaerfyrddin ar gyfer triniaeth. Rydyn ni wedi dosbarthu bwyd, dillad plant a nwyddau cartref eraill i bobl ar ran Banc Bwyd Llandysul mudiad newydd 'Plantos' Roedd un pensiynwr heb ffordd o gyrraedd y swyddfa bost felly nid oedd modd iddo fe dderbyn ei bensiwn na thalu ei rent. Felly rydyn ni wedi ei gasglu pob pythefnos er mwyn galluogi fe wneud y pethau angenrheidiol sydd angen.

Yn ogystal â hyn oll, defnyddiwyd y bws mini i helpu teulu ifanc digartref symud i hostel argyfwng yn Aberystwyth. Oni bai am y bws mini ni fyddai hyn wedi bod yn bosib, mae'r cyfan wedi cael ei wneud gan wirfoddolwyr lleol ac yn destament i'r gymuned agos sydd gyda ni yn Llandysul".



Llun o Matt Adams yn defnyddio bws mini Dolen Teifi sydd ar fenthg y "Help Llandysul a'r Ardal" gyda cymorth eu blant yn ymateb i anghenion cymunedau Llandysul ar cylch.

BWYDO'R GYMUNED / FEEDING THE COMMUNITY

Mae un arall o bysiau mini cymunedol Dolen Teifi a leolir yn Llanelli yn cael ei ddefnyddio gan fanc bwyd LLwynhendy. Yn ystod cyfnod y Covid-19 Mae criw Fforwm Llwynhendy a Pemberton wedi bod yn brysur yn defnyddio'r bws, cynllun Trafnidiaeth i Bawb i gasglu meddyginiaeth a dosbarthu parseli bwyd o'u banc bwyd i drigolion ledled Llanelli. Dywedodd Jason Heart, sy'n trefnu'r 20 o wirfoddolwyr gyda'r cynghorydd Sharen Davies, "bod caredigrwydd siopau mawr fel Morrisons, Marks and Spencers, canolfan anifeiliaid anwes Burns a'r cyhoedd ac ati wedi bod yn anferthol. Mae pawb wedi cael eu syfrdanu gan eu caredigrwydd ac rydym wrth ein boddhau bod modd dosbarthu'r parseli bwyd hyn i bobl yn y gymuned sydd wir angen hynny ". Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a daliwch ati gyda'r gwaith da.



Llun o Tom Jones (canol) sydd heb golli diwrnod yn helpu'r banc bwyd hyd yn oed ar ei benblwydd yn 18 oed!

Y GWERTH O WIRFODDOLI YN Y GYMUNED

Ydych chi wedi meddwl am wirfoddoli yn eich cymuned, ond nid ydych yn siŵr sut y gallwch helpu? Wel, os oes gennych ychydig oriau i sbario'r yn y mis ac eisiau mynd allan o'r tŷ a chwrdd â phobl, beth am ystyried dod yn wirfoddolwr. Mae LPY yn chwilio am fwy o yrwyr yn Llandysul a'r cyffiniau i fynd â phobl i'r ysbyty ac apwyntiadau deintydd, siopa neu dim ond taith allan.

Os nad oes gennych ddiddordeb mewn gyrru, mae gennym gyfleoedd gwirfoddoli eraill megis:-tasgau gweinyddol, glanhau'r bysiau mini, trefnu mewn digwyddiadau, gosod posteri ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau eraill.

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'r cyfleon uchod, a bod angen mwy o wybodaeth arnoch, hoffem glywed gennych.

Cysylltwch â'r Swyddfa ar 01559 362 403 neu

anfonwch e-bost at info@dolenteifi.org.uk fel y gallwn drefnu sgwrs anffurfiol.

Am ragor o wybodaeth am ein bysiau mini neu geir hygyrch MPV, h.y. ar sut maent yn gweithredu, sut i archebu, strwythur prisio, hyfforddiant MiDAS (cynllun ymwybyddiaeth gyrrwyr bws mini) a chyfleoedd gwirfoddoli cyffredinol, beth am ymweld â'n gwefan.

ADNEWYDDU BUSNESAU YN LLANDYSUL A PHONT-TYWELI

Yn ogystal â chael goblygiad difrifol i iechyd a lles pobl a'r gwasanaethau gofal iechyd, mae COVID19 yn cael effaith sylweddol ar fusnes a'r economi. Mae LPY yn gweithio'n agos gyda busnesau yn Llandysul i geisio eu helpu i addasu i'r newidiadau amrywiol yn arferion siopa pobl yn y cyfnod cau lawr.

Yn ddiweddar, cafodd cyfarfod Zoom rhithrol ei drefnu gan LPY a gwahoddwyd busnesau yn Llandysul a Phont-Tyweli er mwyn canfod sut y maent wedi ymdopi yn ystod y cyfnod cloi, sut y gwnaethant addasu eu busnes fel y gallent barhau i fasnachu a beth, os o gwbl, y byddant yn ei weithredu er mwyn iddynt allu parhau i weithredu'n llwyddiannus. Rydym yn ymwybodol bod llawer o fusnesau yn ystod y cyfnod cloi wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook ac Instagram neu bresenoldeb ar Gwefan i hyrwyddo, marchnata a gwerthu eu cynnyrch, sydd wedi bod yn llwyddiannus ac a allai barhau i wneud hynny yn y dyfodol wrth i arferion prynu pobl newid. Hefyd gwahoddodd LPY gynrychiolydd o Gyngor Sir Ceredigion, Arwyn Davies (rheolwr corfforaethol twf a menter) i'r cyfarfod, a siaradodd yn benodol am y grantiau a'r benthyciadau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 a oedd ar gael i fusnesau wneud cais amdanynt a sut y gallai'r Cyngor helpu i roi cyngor/arweiniad os oedd unrhyw fusnes ei angen.

Os oes gennych fusnes a bod gennych syniad neu os ydych am fod yn rhan o adnewyddu Llandysul a Phont-tyweli, cysylltwch â ni neu dewch i ymuno â ni yn y cyfarfod zoom rhithrol busnes nesaf. Mae eich barn a'ch safbwyntiau yn bwysig ar gyfer cynnal a datblygu ein cymuned fusnes.



Rwy'n falch o ddweud fod yr ymgyrch **Cysylltu â Charedigrwydd** bellach yn fyw!

Rhannwch gyda'ch rhwydwaith cysylltiadau, eich cydweithwyr, y teulu, ffrindiau ac ymunwch â ni yn ein hymgyrch i greu cymuned well a mwy caredig – **mae'n dechrau gyda CHI.**

Hefyd, un o'r ffyrdd sydd gennym o gysylltu pobl â Charedigrwydd yw trwy ein platfformau Cysylltu. Mae gan bob Sir eu platfformau eu hunain a dyma'r cyfeiriadau:

www.connectceredigion.org.uk www.connectpembrokeshire.org.uk,
www.connectcarmarthenshire.org.uk